# Rheoli risg er mwyn darparu gwasanaethau gwell

## Ebrill 2024

Bwriad y llyfryn hwn yw eich helpu i ddeall sut mae'r Cyngor yn rheoli risg. Mae'n offeryn i unrhyw un sy'n gweithio yn y Cyngor, yn ogystal â chanllaw i'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Canllaw i Reoli Risg

## Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw beth yn y llyfryn hwn

Cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Byddwn yn hapus i roi unrhyw ganllawiau a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu.

**Drwy e-bost:** timcynllluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 70 6291 (Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:30am i 5pm). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Ysgrifennwch atom ni:** Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

# Canllaw i Reoli Risg

## Cynnwys


Cyflwyniad 4
Beth yw risg? 6
Beth yw rheoli risg? 6
Beth yw parodrwydd i dderbyn risg? 6
Crynodeb o Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Sir Ddinbych (adolygwyd Ebrill 2024) 7
Pryd y dylwn i ystyried risgiau? 8
Meini prawf asesu risg prosiect 11
Pa risgiau ddylwn i eu hystyried? 13
Sut ydw i'n disgrifio risgiau? 18
Sut ydw i'n sgorio risgiau? 19
Pa gamau ddylwn eu cymryd unwaith yr wyf yn gwybod beth yw'r sgôr? 21
Sut ydw i'n adrodd ac uwchgyfeirio risgiau? 22
Ble ydw i'n cofnodi risgiau? 24
Beth mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu ar gyfer rheoli risg? 24
Disgwyliadau 26
Aelodau'r cyhoedd 27
Aelodau etholedig 28
Aelodau Cabinet 29
Aelodau Craffu Perfformiad 30
Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 31
Aelodau staff 32
Y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Corfforaethol 33
Penaethiaid Gwasanaeth 34
Rheolwyr Canol 36
Swyddogion Perfformiad o fewn Gwasanaeth 37
Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad 38
Atodiad1: Ein Hymagwedd tuag at Barodrwydd i Dderbyn Risg 39
Datganiad Cyngor Sir Ddinbych ar Barodrwydd i Dderbyn Risg 40
Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg 42
Geirfa 46

# Canllaw i Reoli Risg

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r hyn a elwir yn Rheoli Risg yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Nod polisi rheoli risg y Cyngor yw:

- Datblygu dull cyson o reoli risg ar draws y Cyngor.
- Annog diwylliant o fod yn rhagweithiol ymwybodol o risg ar draws y Cyngor.
- Cynnal a gwella ffydd cwsmeriaid yn ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau.
- Lleihau'r posibilrwydd o weithgareddau neu gostau ariannol annisgwyl a'u heffaith ar enw da'r Cyngor.
- Datblygu gweithgareddau i atal / lleihau effaith a / neu debygolrwydd eu risg.
- Rheoli risg yn unol ag arfer gorau a rhwymedigaethau statudol.

**Dylai rheoli risg fod yn hollgynhwysol ond nid yn feichus nac yn fiwrocrataidd ac ni ddylai ychwaith ychwanegu at y gost o redeg y Cyngor.**

Mae pennod ar gyfer pob rôl yn y canllaw hwn a'r gobaith yw y bydd yn eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi ei wybod am reoli risg. Ond peidiwch â chael eich cyfyngu gan hynny – weithiau mae'n ddiddorol gwybod beth mae pobl eraill yn ei wneud hefyd, p'un a ydych chi'n:

- **Aelod o'r cyhoedd**

- **Aelod etholedig:**
  - Aelod Cabinet
  - Aelod Craffu
  - Aelod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- **Aelod o staff:**
  - Y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol
  - Pennaeth Gwasanaeth
  - Rheolwr Canol
  - Swyddog Perfformiad o fewn Gwasanaeth

# Canllaw i Reoli Risg

- Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Ar draws y rolau hyn i gyd mae rhai pethau cyffredin y mae'n ddefnyddiol eu gwybod:

- Beth yw risg?
- Beth yw rheoli risg?
- Beth yw parodrwydd i dderbyn risg?
- Pryd y dylwn i ystyried risgiau?
- Pa risgiau ddylwn i eu hystyried?
- Sut ydw i'n disgrifio risgiau?
- Sut ydw i'n sgorio risgiau?
- Pa gamau ddylwn i eu cymryd unwaith yr wyf yn gwybod beth yw'r sgôr?
- Ble ydw i'n cofnodi risgiau?
- Sut ydw i'n adrodd ac uwchgyfeirio risg?
- Beth mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu ar gyfer rheoli risg?

Argymhellir hefyd eich bod yn edrych ar yr adran Disgwyliadau yn y ddogfen hon. Mae'r Geirfa hefyd yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol!

Yn olaf, mae nifer o elfennau cyffredin rhwng rolau a chyfrifoldebau o fewn rheoli perfformiad a risg. I gael rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at reoli perfformiad, gweler ein Canllaw i Wella Gwasanaethau ar gyfer ein Cymunedau, ar gael ar ein tudalen ar berfformiad - www.sirddinbych.gov.uk/perfformiad.

# Canllaw i Reoli Risg

## Beth yw risg?

Ein diffiniad o risg yw 'digwyddiad, os yw'n digwydd, a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau yn llwyddiannus'.

Yn aml iawn mae problemau neu anawsterau sydd wedi codi yn cael eu camgymryd am risg.

'Mae problem neu anhawster yn rhywbeth sy'n codi o ganlyniad i risg. Mae wedi digwydd yn barod a gallai rheolwyr eisoes fod wedi cymryd camau i'w liniaru'.

Rydym yn cydnabod bod risg ynghlwm â phopeth a wnawn a bod dyletswydd arnom i reoli'r risgiau hyn mewn ffordd gytbwys, strwythuredig a chost-effeithiol. Felly, ystyrir bod y broses o adnabod, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan annatod o'n proses reoli. O ganlyniad, gallwn wella'r ffordd y darparwn ein gwasanaethau er mwyn darparu gwerth am arian a chyflawni ein blaenoriaethau'n well.

## Beth yw rheoli risg?

Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer **Adnabod, Asesu, Rheoli a Monitro** risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor.  Trwy reoli ein proses risg yn effeithiol, byddwn mewn sefyllfa well i ddiogelu yn erbyn bygythiadau posib a manteisio ar gyfleoedd posib i wella ein gwasanaethau a chynnig gwerth am arian gwell.

## Beth yw parodrwydd i dderbyn risg?

Diffinnir hyn fel lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn fel Cyngor wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Mae penderfynu a mynegi ein parodrwydd i dderbyn risg yn caniatáu i ni ystyried pob dewis i ymateb i risg a gwneud penderfyniadau gwybodus sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus, tra hefyd yn darparu lefel dderbyniol o werth am arian. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer gwirio pa mor barod ydym ni i dderbyn risg (a ydym eisiau osgoi risg neu a ydym yn awyddus i gymryd risg?) gyda'n blaenoriaethau corfforaethol, prosiectau, risgiau gwasanaeth neu gorfforaethol ac ati. Gweler ein Datganiad a Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

# Canllaw i Reoli Risg

## Crynodeb o Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Sir Ddinbych (adolygwyd Ebrill 2024)

Mae parodrwydd Cyngor Sir Ddinbych i dderbyn risg mewn perthynas â gwahanol agweddau ar fusnes y Cyngor wedi'i grynhoi isod (gweler y datganiad llawn yn Atodiad 1):

- **Enw Da a Hygrededd (risgiau yn gysylltiedig â ffydd / hyder pobl yn y Cyngor)** – parodrwydd i dderbyn risgiau **agored** - yn fodlon ystyried yr holl opsiynau a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). Mae hyn yn golygu y byddwn yn goddef risgiau bach, cymedrol neu fawr.

- **Darpariaeth Weithredol a Darpariaeth Polisïau (risgiau sy'n canolbwyntio ar nodau hirdymor a'r gwasanaethau y mae ein cwsmeriaid yn eu derbyn)** – parodrwydd i dderbyn risgiau **agored** - yn fodlon ystyried yr holl opsiynau a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). Eto, mae hyn yn golygu y byddwn yn goddef risgiau bach, cymedrol neu fawr.

- **Prosiectau Ariannol (risgiau am golled ariannol a gwerth am arian)** – parodrwydd i dderbyn risgiau **gofalus** - ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. O ran ein graddfa amlygiad i risg, byddem felly ond yn derbyn risg fach neu gymedrol.

- **Rheoli'r Trysorlys (risgiau am golled ariannol a gwerth am arian)** – parodrwydd i dderbyn risgiau **gofalus** - ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. O ran ein graddfa amlygiad i risg, byddem felly ond yn derbyn risg fach neu gymedrol.

- **Cydymffurfiaeth a Rheoliadau - Diogelu (risgiau yn ymwneud â'r gyfraith, rheoliadau a chanllawiau)** - parodrwydd i dderbyn risgiau **minimalaidd** - ffafriaeth am opsiynau hynod ddiogel pan fo lles unigolion dan sylw, sydd â rhywfaint o risg gynhenid ac sydd â'r potensial am wobrau (diogel) cyfyngedig yn unig. Mae hyn yn

golygu y byddwn ond yn derbyn risgiau bach yn y maes hwn.

- **Cydymffurfiaeth a Rheoliadau - Arall (risgiau yn ymwneud â'r gyfraith, rheoliadau a chanllawiau statudol)** - parodrwydd i dderbyn risgiau **gofalus** - ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. Eto, mae hyn yn golygu y byddwn ond yn goddef risgiau bach neu gymedrol yn y maes hwn.

- **Pobl (Gweithlu) Dysgu a Datblygu** - parodrwydd i dderbyn risgiau **gofalus** - ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. Fel yr uchod, byddwn ond yn goddef risgiau bach neu gymedrol.

- **Pobl (Gweithlu)** - parodrwydd i dderbyn risgiau **gofalus** - ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. Eto, mae hyn yn golygu y byddwn ond yn goddef risgiau bach neu gymedrol yn y maes hwn.

## Pryd y dylwn i ystyried risgiau?

Mae adnabod ac asesu risgiau yn barhaus, a chymryd camau priodol i'w lliniaru, yn allweddol os ydym am lwyddo i gyflawni ein blaenoriaethau. Bydd amgylchedd allanol sy'n newid o hyd, a'r penderfyniadau a wneir wrth redeg y Cyngor, yn newid statws risg yn barhaus, p'un ai yw'n risg sydd eisoes wedi'i hadnabod, neu'n risg newydd.

Wrth adnabod ac asesu risg, dylid ystyried y canlynol:

- Cwmpas y gweithgareddau sydd i'w hasesu (e.e. corfforaethol, gwasanaeth, cydweithredol neu brosiect) a'r nodau neu'r blaenoriaethau cysylltiedig (e.e. cynllun corfforaethol, cylch gorchwyl neu amcanion prosiect).

- Effaith amgylchedd sy'n newid o hyd, yn allanol ac yn fewnol:

i) Yn allanol gallai hyn gynnwys newidiadau gwleidyddol, rheoliadol, economaidd, deddfwriaethol a chymunedol.

ii) Yn fewnol gallai gynnwys newid proses, yr hyn a ddisgwylir gan wasanaeth, gallu neu bartneriaid.

- Lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn mewn perthynas â'r gweithgareddau dan sylw (yn cynnwys ystyried Datganiad Sir Ddinbych ar Barodrwydd i Dderbyn Risg).

## Cynllunio blynyddol a busnes fel arfer

Dylid rheoli risg wrth wneud penderfyniadau o ddydd i dydd ac mae'n gyfrifoldeb ar bob rheolwr llinell. Fodd bynnag, rhaid pennu adegau penodol pan gaiff cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau penderfyniadau gweithredol eu hadolygu. Ar yr adegau hyn dylid cynnal trafodaethau ffurfiol a diweddaru cofrestrau risg i adlewyrchu hyn. Dylid trafod, adolygu a rhoi gwybod am risgiau mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rheoli risg rheolaidd.

Mae'r broses flynyddol o Gynllunio Gwasanaethau hefyd yn gyfle i fod yn flaengar a rhagweithiol wrth reoli risg.

## Risg gwybodaeth a sicrwydd

Mae gan bob aelod o staff yn y Cyngor rôl i'w chwarae mewn rheoli gwybodaeth yn effeithiol. Risgiau gwybodaeth yw'r bygythiadau i adnoddau gwybodaeth a ddefnyddir gan sefydliad i gyflawni ei flaenoriaethau. Gall risgiau gynnwys datgelu gwybodaeth yn amhriodol neu beidio â datgelu gwybodaeth; colli, dwyn neu dwyll; dinistrio gwybodaeth yn anghywir; staff yn gwneud camgymeriadau a methu â defnyddio gwybodaeth er budd y cyhoedd. Bydd adnabod, asesu, monitro ac adrodd risgiau i'n hasedau gwybodaeth yn cael ei wneud yn yr un ffordd ag ar gyfer risgiau eraill i ddarpariaeth gwasanaethau.

# Canllaw i Reoli Risg

## Prosiectau

Mae gan brosiectau flaenoriaethau wedi'u diffinio'n glir, gan gynnwys cwmpas, amserlen a chyllideb, felly mae'n gam amlwg bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli fel rhan o reolaeth prosiect.

Mae ystyried risg ar ddechrau prosiect yn fuddsoddiad amser da.  Os yw risg yn codi yn ystod prosiect rhaid gweithredu i'w datrys bryd hynny, gan ychwanegu at y costau.  Mae'n well adnabod a lle bo angen lleihau risgiau ar ddechrau prosiect yn hytrach na chael cynllun wrth gefn ar y sail y bydd pethau'n mynd o'i le, ond ni wyddom beth.

Yn y bôn mae'r broses asesu risg ar gyfer prosiect yr un fath â'r prosesau rheoli risg a ddisgrifir yn y ddogfen hon, dim ond bod y meini prawf asesu risg ariannol yn newid i adlewyrchu prosiectau.

## Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen

Dylid ystyried rheolaeth risg yn ystod datblygiad pob opsiwn i greu Model Darparu Gwasanaeth Amgen (sy'n cynnwys partneriaethau, gwaith ar y cyd, cwmnïau 'hyd braich' a threfniadau prynu gwasanaethau i mewn).

Mae'n bwysig adnabod ac ystyried yr holl risgiau posibl mor gynnar â phosib, a dylai rheolaeth risg ffurfio rhan sylfaenol o ddatblygiad, a wedi hynny rheolaeth pob model darparu gwasanaeth amgen.

Yn ei hanfod, mae'r broses asesu risg ar gyfer sefydlu a rheoli modelau darparu gwasanaeth amgen yr un fath â'r prosesau rheoli risg a ddisgrifir yn y ddogfen hon.  Mae'r Tîm Cynllunio Strategol wedi datblygu [Pecyn Gwaith Modelau Darparu Gwasanaethau Amgen] i'ch cyfeirio at y wybodaeth sydd ei hangen arnoch o ran ystyried darparu gwasanaethau o fewn y Cyngor.

# Canllaw i Reoli Risg

## Meini prawf asesu risg prosiectau

### Graddio tebygolrwydd digwyddiad

Sylwch mai dim ond ar gyfer sgorio risg prosiect y dylid defnyddio'r meini prawf isod. Mae sgorio risgiau sefydliadol yn yr adran 'Sut ydw i'n sgorio risgiau?'

| Graddfa | % Siawns | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **A:** Bron yn bendant | Dros 70% | Digwyddiad bron yn bendant o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| **B** Tebygol | 30% i 70% | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| **C** Posibl | 10% i 30% | Bydd y digwyddiad yn digwydd o bosibl ar ryw adeg |
| **D:** Annhebygol | 1% i 10% | Digwyddiad yn annhebygol ond gallai ddigwydd ar ryw adeg |
| **E:** Annhebygol iawn | Dan 1% | Digwyddiad annhebygol iawn ond fe all ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol |

# Canllaw i Reoli Risg

## Graddio effaith digwyddiad

| Graddfa | Amser / Cost / Amcanion | Perfformiad Gwasanaeth | Enw Da | Cost Ariannol |
|---|---|---|---|---|
| **1:** Uchel Iawn | Cynnydd mwy na 50% mewn amser neu gost prosiect. Prosiect yn methu â diwallu amcanion neu gwmpas. | Methu darparu gweithgareddau craidd. Peryglu amcanion strategol. | Difrodi ymddiriedaeth yn ddifrifol ac adfer yn llawn yn amheus a chostus. | Dros £5 miliwn |
| **2:** Uchel | Cynnydd 20% i 50% mewn amser neu gost prosiect. Effaith ar gwmpas neu amcanion prosiect yn annerbyniol i'r noddwr. | Amharu'n sylweddol ar weithgareddau craidd. Methu targedau allweddol. | Adfer ymddiriedaeth am gost sylweddol a llawer o sylw gan reolwyr. | £1 miliwn i £5 miliwn |
| **3:** Canolig | Cynnydd 5% i 20% mewn amser neu gost prosiect. Effaith fawr ar gwmpas neu amcanion y prosiect sydd angen cymeradwyaeth noddwr. | Amhariad i weithgarwch / cwsmeriaid craidd. | Adfer ymddiriedaeth yn gofyn am awdurdodiad cost y tu hwnt i gyllidebau presennol. | £350,000 i £1 miliwn |

# Canllaw i Reoli Risg

| Graddfa | Amser / Cost / Amcanion | Perfformiad Gwasanaeth | Enw Da | Cost Ariannol |
|---|---|---|---|---|
| **4:** Isel | Llai na 5% o gynnydd mewn amser neu gost prosiect. Effaith fach ar gwmpas neu amcanion y prosiect. | Rhywfaint o amhariad i weithgarwch / cwsmeriaid craidd. | Adfer ymddiriedaeth am gost fechan gyda dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb. | £50,000 i £350,000 |
| **5:** Isel Iawn | Cynnydd ansylweddol mewn amser neu gost prosiect. Prin y gellir sylwi'r effaith ar gwmpas neu amcanion y prosiect. | Mân wallau neu amhariadau. | Adfer ymddiriedaeth heb fawr o ymdrech neu gost. | Llai na £50,000 |

## Pa risgiau ddylwn i eu hystyried?

Dylid casglu’r risgiau os ydynt dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor neu beidio. Dylid nodi bod ochr gadarnhaol i risg (cyfle) na ddylid ei  hesgeuluso a gellir ei chasglu fel cyfle posibl a gollwyd.

I sicrhau ymdriniaeth gyson ar draws y Cyngor, defnyddiwn y fframwaith categorïau risg canlynol.  Mae’r categorïau hyn yn canolbwyntio ar ffynhonnell y risg, i’w defnyddio fel cyfres o sbardunau i ystyried senarios a fydd yn achosi canlyniadau a allai effeithio ar ddeilliannau penodol.

### Gwleidyddol

Yn codi o’r sefyllfa wleidyddol

- Newid i bolisi’r Llywodraeth
- Cyfansoddiad gwleidyddol

- Cylchoedd etholiadol
- Strwythur gwneud penderfyniadau
- Camdriniaeth (e.e. twyll, llygredigaeth)
- Rheoli enw da

## Economaidd ac ariannol

Yn codi o'r sefyllfa economaidd, a'r fframwaith cynllunio ariannol

- Trysorlys – buddsoddiadau, diwygiadau
- Darogan y galw
- Cystadleuaeth a'r effaith ar brisiau
- Y sefyllfa economaidd gyffredinol / ranbarthol
- Gwerth / cost asedau cyfalaf

## Cymunedol

Demograffeg, tueddiadau cymdeithasol a diwallu anghenion neu ddisgwyliadau cwsmeriaid

- Patrymau a phroffil preswyl
- Gofal cymdeithasol
- Adfywio
- Gofal cwsmer
- Ansawdd ymgynghori a'r gymuned

## Technolegol

Yn codi o allu delio â chyflymder newid, a'r sefyllfa dechnolegol

- Gallu delio â newid neu ddatblygiad
- Cyflwr pensaernïaeth
- Technoleg ddarfodedig
- Perfformiad presennol a dibynadwyedd
- Diogelwch a safonau
- Prosiect neu system allweddol yn methu

## Deddfwriaethol / rheoliadol

Yn codi o newidiadau deddfwriaethol presennol a phosib a/neu dor-deddfwriaeth, a gwybodaeth reoliadol y sefydliad

- Deddfwriaeth a rheoliadau newydd
- Delio â rheoleiddwyr
- Heriau cyfreithiol neu adolygiadau barnwrol
- Pa mor ddigonol yw'r cymorth cyfreithiol

## Amgylcheddol

Yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol

- Math o amgylchedd (trefol, gwledig, cymysg)
- Defnydd tir – tir llain las, safleoedd tir llwyd
- Materion gwaredu gwastraff ac ailgylchu
- Effaith argyfwng sifil (h.y. llifogydd)
- Problemau traffig, cynllunio a chludiant
- Llygredd, allyriadau, sŵn

- Newid hinsawdd ac arbed ynni

## Proffesiynol neu reolaethol

Yr angen i fod yn rheolaethol a phroffesiynol gymwys

- Adolygiadau cyfoedion
- Sefydlogrwydd y strwythur swyddogion
- Cymhwysedd a chapasiti
- Fframweithiau a phrosesau rheoli
- Trosiant, recriwtio a chadw staff
- Materion penodol i broffesiwn

## Peryglon ffisegol ac iechyd a diogelwch

Peryglon ffisegol yn gysylltiedig â phobl, tir, adeiladau, cerbydau a chyfarpar

- Iechyd, diogelwch a lles staff, partneriaid a'r gymuned
- Cadw cofnodion ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Arferion cynnal a chadw
- Diogelwch staff, asedau, adeiladau a chyfarpar
- Natur a chyflwr y sylfaen asedau

## Partneriaethau neu gontractau

Partneriaethau, contractau a chydweithio

- Partneriaid allweddol – cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Fframweithiau atebolrwydd a ffiniau partneriaethau

# Canllaw i Reoli Risg

- Prosiectau mawr gyda mentrau ar y cyd
- Gwasanaethau a brynir i mewn
- Rheoli perthynas
- Rheoli newid / strategaethau ymadael
- Parhad busnes
- Partneriaethau – rhwymedigaethau contractau

# Canllaw i Reoli Risg

## Sut ydw i'n disgrifio risgiau?

Mae disgrifio'r risg yn bwysig fel eich bod yn deall y risg yn llawn, ac i helpu i adnabod y camau sydd angen eu cymryd, rhaid hefyd nodi achos ac effaith pob risg. Gallai brawddegau arferol a ddefnyddir i wneud hyn gynnwys:

### Disgrifiad

- risg o …
- methu â …
- … yn methu
- diffyg …
- colli …
- ansicrwydd o ran …
- oedi gyda …
- anallu i …
- dim digon o …
- partneriaeth â …
- datblygu …
- cyfle i …
- difrod i…

### Achos

- … o achos …
- oherwydd ...

### Effaith

- … yn arwain at …
- yn creu …

Ar ôl adnabod a disgrifio'r risg, mae'n bwysig asesu'r pethau achosodd y risg, y canlyniadau / effaith posib a pha mor effeithiol y mae'n cael ei rheoli.

# Canllaw i Reoli Risg

## Sut ydw i'n sgorio risg?

Mae risg yn cael ei mesur o ran effaith a thebygolrwydd yn erbyn meini prawf asesu risg cytunedig. Mae'r meini prawf asesu risg yr ydym yn ei ddefnyddio yn Sir Ddinbych yn rhannol feintiol, sydd yn golygu eu bod yn  yn fwy manwl na nodi uchel, canolog ac isel. Mae'r meini prawf hyn yn ein helpu i fod yn fwy gwrthrychol wrth asesu ac i flaenoriaethu ac uwch gyfeirio risg yn fwy cyson. Mae'r blaenoriaethu hyn yn ein helpu i benderfynu ar beth ddylai ffocws ein hymdrechion rheoli risg fod.

Mae effaith risg yn cael ei fesur mewn pum prif fand, o isel iawn i uchel iawn, a thebygolrwydd risg o 'annhebygol iawn' i 'bron yn bendant'.  Wrth asesu tebygolrwydd dylai hyn fod ar sail amserlen briodol, fel arfer dros gyfnod y Cynllun Gwasanaeth ond gellir ymestyn hyn yn unol â chynlluniau mwy hirdymor lle bo angen.

### Graddio tebygolrwydd digwyddiad

| Graddfa | % Siawns | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **A:** Bron yn bendant | Dros 70% | Digwyddiad bron yn bendant o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| **B** Tebygol | 30% i 70% | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| **C** Posibl | 10% i 30% | Bydd y digwyddiad yn digwydd o bosibl ar ryw adeg |
| **D:** Annhebygol | 1% i 10% | Digwyddiad yn annhebygol ond gallai ddigwydd ar ryw adeg |
| **E:** Annhebygol iawn | Dan 1% | Digwyddiad annhebygol iawn ond fe all ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol |

# Canllaw i Reoli Risg

## Graddio effaith digwyddiad

| Graddfa | Perfformiad Gwasanaeth | Enw Da | Cost Ariannol |
|---|---|---|---|
| **1:** Uchel Iawn | Methu darparu gweithgareddau craidd. Peryglu amcanion strategol. | Difrodi ymddiriedaeth yn ddifrifol ac adfer yn llawn yn amheus a chostus. | Dros £5 miliwn |
| **2:** Uchel | Amharu'n sylweddol ar weithgareddau craidd. Methu targedau allweddol. | Adfer ymddiriedaeth am gost sylweddol a llawer o sylw gan reolwyr. | £1 miliwn i £5 miliwn |
| **3:** Canolig | Amhariad i weithgarwch / cwsmeriaid craidd. | Adfer ymddiriedaeth yn gofyn am awdurdodiad cost y tu hwnt i gyllidebau presennol. | £250,000 i £1 miliwn |
| **4:** Isel | Rhywfaint o amhariad i weithgarwch / cwsmeriaid craidd. | Adfer ymddiriedaeth am gost fechan gyda dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb. | £50,000 i £250,000 |
| **5:** Isel Iawn | Mân wallau neu amhariadau. | Adfer ymddiriedaeth heb fawr o ymdrech neu gost. | Llai na £50,000 |

Darperir nifer o wahanol ddisgrifiadau i'ch helpu i amcangyfrif effaith y risg – perfformiad gwasanaeth, enw da a chost ariannol. Pwrpas y gwahanol ddisgrifiadau yw er nad yw bob amser yn hawdd i amcangyfrif cost effaith risg, mae weithiau'n haws cymharu â datganiad ansoddol (e.e. "amharu ar weithgareddau craidd / cwsmeriaid").

Yn ogystal â datganiadau ansoddol, rhoddir rhai senarios tebygolrwydd enghreifftiol. Gellir hefyd ystyried y rhain yn nhermau pa mor aml y disgwylir iddynt ddigwydd lle mae 1% yn cyfateb i'r tebygolrwydd o 1 digwyddiad mewn 100 mlynedd, 10% yn 1 digwyddiad mewn 10 mlynedd, a 50% yn 1 digwyddiad mewn 2 flynedd, ac ati.

# Canllaw i Reoli Risg

**Cofiwch mai canllaw yw'r rhain ac i sicrhau cysondeb – ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiadau union.**

Mae angen ystyried tebygolrwydd ac effaith risg ar ôl gwerthuso pa mor effeithiol yw'r mesurau rheoli presennol. Mae mesurau rheoli presennol yn golygu mesurau sydd eisoes yn eu lle, nid rhai y bwriadwn eu rhoi yn ei lle. Am bob mesur rheoli sy'n cael ei adnabod mae'n bwysig adolygu pa mor effeithiol yw ar gyfer rheoli'r risg a bod yr asesiad o risg weddilliol yn adlewyrchu hyn yn gywir.

**Risg Gynhenid:**Y risg y byddai gweithgaredd yn ei gyflwyno **heb fesurau rheoli** na chamau lliniaru eraill yn eu lle.

**Risg Weddilliol:** Y risg sy'n aros **ar ôl ystyried y mesurau rheoli**.

## Pa gamau ddylwn i eu cymryd unwaith yr wyf yn gwybod beth yw'r sgôr?

Ar ôl adnabod y risg ac ystyried eich mesurau rheoli presennol, ac wedi rhoi sgôr i'ch risg, bydd angen i chi benderfynu a oes angen cymryd camau ychwanegol.

- Fel rheol, lle mae'r risg yn **Fawr** neu **Gritigol**, bydd angen cymryd camau pellach.
- Lle mae'r risg yn **Gymedrol**, dylid ystyried yn ofalus a oes angen cymryd camau pellach.
- Lle mae'r risg yn **Isel**, fel rheol nid oes angen gwneud dim.

Fel arfer bydd opsiynau ar gyfer rheoli'r risg yn well ac mae'r rhain yn disgyn i'r categorïau canlynol:

- **Goddef:** Mae hyn yn golygu derbyn y risg a'i heffeithiau. Gallai hyn gynnwys penderfynu cwrdd ag unrhyw golled pe bai'n digwydd, neu lle mae'r gost o reoli'r risg yn fwy na'r manteision.
- **Trin:** Lleihau'r risg drwy ei gwneud yn llai tebygol o ddigwydd neu leihau'r effaith pe bai'n digwydd. Gall hyn gynnwys hyfforddi, gwella gweithdrefnau, cyfarpar / systemau newydd neu newid polisi ac ati.

- **Trosglwyddo:** Mae hyn yn golygu pasio'r risg, neu gost yr effaith, i rywun y tu allan i'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys contractio'n allanol neu drefnu yswiriant i gwrdd â'r costau.
- **Terfynu:** Dileu'r risg drwy ddod â'r gweithgaredd sy'n cyflwyno'r risg i ben.

Mae hi hefyd yn bwysig cymharu'r gwerthusiad o'r risg yn erbyn y parodrwydd i dderbyn risg cytunedig ar gyfer pob categori o risg.

Mae hwn yn nodi lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn, ei goddef neu fod yn agored iddi ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar gategori'r risg. Mewn rhai meysydd, bydd y Cyngor yn cymryd mwy o risg er mwyn cefnogi meddwl arloesol. Mewn meysydd eraill, gall y Cyngor gymryd llai o risg er mwyn sicrhau cydsyniad cyfreithiol er enghraifft.

Er bod y Cyngor yn barnu na ellir goddef unrhyw risgiau critigol, rhagwelir y bydd pob risg arall yn cael ei rheoli yn unol â'r fframwaith parodrwydd i dderbyn risg.

Fodd bynnag nid yw parodrwydd i dderbyn risg yn disodli'r broses adrodd ac uwchgyfeirio a amlinellir isod. Mae risgiau'n dal i gael eu rheoli ar y lefel isaf a mwyaf priodol o fewn y sefydliad ac ni fyddant yn cael eu huwchgyfeirio heblaw pan fo angen cymryd camau sydd y tu all i reolaeth y perchennog risg presennol.

## Sut ydw i'n adrodd ac uwchgyfeirio risgiau?

Mae monitro risgiau yn weithgaredd rheoli arferol ac dylid ei integreiddio fel rhan o gyfrifoldebau rheoli arferol.

Mae'n bwysig sicrhau bod y risgiau eu hunain yn cael eu hadolygu'n ddigon aml mewn cyfarfodydd Cabinet, Uwch Dîm Rheoli, mewn grwpiau Herio Perfformiad Gwasanaethau a chyfarfodydd tîm y gwasanaethau unigol.

Disgwylir wedyn bod adroddiadau rheolaidd (o leiaf bob chwe mis) yn cael eu cyflwyno i aelodau etholedig yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad, yn tynnu eu sylw at unrhyw risgiau allweddol a wynebir gan y Cyngor a sut y bwriedir eu rheoli, drwy gyflwyno'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

# Canllaw i Reoli Risg

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ran bwysig i'w chwarae hefyd o ran monitro effeithiolrwydd a chysondeb ein prosesau rheoli risg. Byddant yn derbyn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, ond mae croeso iddynt gwestiynu risgiau'r Cyngor ar unrhyw adeg, yn cynnwys risgiau ar lefel gwasanaeth, rhaglen a phrosiect.

Bydd pob risg i wasanaeth wedi cael eu cytuno a'u cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth ac Aelod(au) Cabinet arweiniol perthnasol. Gwneir hyn drwy gyfarfodydd un-i-un rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelodau Arweiniol. Os ystyrir bod risg yn risg 'gorfforaethol', byddai angen cael trafodaeth rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr perthnasol i uwchgyfeirio'r risg i lefel 'gorfforaethol' drwy Uwch Dîm Rheoli y Cyngor. Bydd pob risg gorfforaethol yna'n cael ei chytuno a'i chymeradwyo gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli a'i harchwilio gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

Mae'r cyfuniad o effaith a thebygolrwydd yn arwain at y raddfa amlygiad i risg a'r meini prawf uwchgyfeirio isod, gan ganiatáu i ni reoli ymyrraeth yn seiliedig ar ddifrifoldeb. Pennir y meini prawf hyn ar lefel gorfforaethol ac ni fwriedir iddynt awgrymu nad yw risg gymedrol (ar lefel gorfforaethol) yn bwysig i wasanaeth penodol (ar lefel gwasanaeth) ac y gallai fod angen cymryd camau neu fonitro pellach ar y lefel gwasanaeth hwnnw:

| **Sgôr Risg** | **Difrifoldeb Risg** | **Meini Prawf Uwchgyfeirio** |
|---|---|---|
| **C5, D4, D5, E4, E5** | **Bach** | Gellir rheoli'r risg yn hawdd yn lleol – nid oes angen cynnwys rheolwyr |
| **A5, B4, B5, C3, C4, D3, E2, E3** | **Cymedrol** | Gellir ymdopi â'r risg ar lefel gwasanaeth – efallai y bydd angen hysbysu uwch reolwyr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth |
| **A3, A4, B3, C2, D1, D2, E1** | **Mawr** | Ymyrraeth gan yr Uwch Dîm Arwain a chyfranogiad y Cabinet |

# Canllaw i Reoli Risg

| Sgôr Risg | Difrifoldeb Risg | Meini Prawf Uwchgyfeirio |
|---|---|---|
| **A1, A2, B1, B2, C1** | **Critigol** | Ymyrraeth sylweddol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet |

## Ble ydw i'n cofnodi risgiau?

Yn Sir Ddinbych rydym yn defnyddio system storio o'r enw Verto i helpu i gofnodi a monitro pob risg i wasanaethau a phrosiectau.

Cynghorir gwasanaethau i fonitro eu Cofrestr Risg bob 3 mis a bod swyddogion y gwasanaethau'n helpu i gasglu a chofnodi gwybodaeth am risg yn Verto.

## Beth mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu ar gyfer rheoli risg?

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor feddwl mwy am y tymor hir, sut i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau ac edrych ar bethau'n fwy cyd-gysylltiedig â'i bartneriaid.

Rhaid deall pob penderfyniad a wneir gan y Cyngor yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; h.y. ydy anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain?

Mae pum peth y mae angen i ni eu hystyried er mwyn gallu dangos ein bod wedi cymhwyso'r Egwyddor o Ddatblygu Cynaliadwy (Meddwl yn Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chyfranogi).

Bydd risgiau hirdymor yn effeithio nid yn unig ar ddarparu gwasanaethau ond hefyd ar y cymunedau yr ydych yn eu galluogi i wella. Felly mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r pum ffordd yma o weithio, a'r nodau llesiant yn y Ddeddf, i asesu pa risgiau y byddwch efallai'n eu hwynebu yn y tymor byr, canolig a hir.  Byddwch yna'n gallu cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli, yn awr ac yn y dyfodol.

# Canllaw i Reoli Risg

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y Canllaw Hanfodion ar-lein yng Nghenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

# Canllaw i Reoli Risg

## Disgwyliadau

### Rydym i gyd yn disgwyl:

- i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau i safon uchel a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol.
- i ddyletswyddau deddfwriaethol gael eu bodloni.
- cael mynediad at y wybodaeth a'r data diweddaraf sy'n dweud wrthym sut y mae'r Cyngor yn rheoli risg.
- i rywun wrando arnom a gweithredu ar ein pryderon.

### Mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i hyrwyddo:

- cyfathrebu ac ymgysylltu.
- y Gymraeg.
- mynediad at wasanaethau a pharch at bobl eraill gan gofio am y naw nodwedd a warchodir a phobl sydd mewn tlodi.
- yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o lywodraethu.

### Sut ydym ni'n gwneud hyn?

Gyda'n gilydd, mae gennym i gyd ran i'w chwarae i sicrhau bod y disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni. Rydym yn gwneud hyn yn naturiol drwy ein rhyngweithio â'n gilydd ac â'r Cyngor. Er mwyn deall y cyfraniad y gallwch chi ei wneud fel unigolyn, darllenwch drwy'r rolau canlynol.

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau'r cyhoedd

### Fel aelod o'r cyhoedd rydw i'n disgwyl:

- gwasanaethau ansawdd uchel sydd wedi eu cynllunio'n dda ac yn bodloni fy anghenion.
- mynediad at wybodaeth a data cyfredol sy'n hawdd eu deall.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- herio sut mae'r Cyngor yn rheoli risg a rhoi gwybod iddynt ble gellir gwneud pethau'n well. Gallwch ddweud eich barn drwy ein gwefan.

### Sut mae gwneud hyn?

- Gallwch weld cynnydd presennol y Cyngor o ran rheoli risg a pherfformiad drwy ein Hadroddiadau Diweddaru Perfformiad, sy'n ffurfio ein Hunanasesiad Blynyddol.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Chraffu yn gyhoeddus ac mae croeso i chi fynychu. Gallwch hefyd weld rhai cyfarfodydd ar-lein drwy we-ddarllediadau Cyngor Sir Ddinbych.

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau etholedig

### Fel aelod etholedig rydw i'n disgwyl:

- gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddibynadwy gan swyddogion y Cyngor i'm helpu i wneud penderfyniadau a chyflawni fy rôl.
- cael gwybod am faterion a risgiau sy'n effeithio ar fy ward.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- herio sut mae'r Cyngor yn rheoli risg, gan geisio gwelliant lle bo modd.
- deall y risgiau corfforaethol sy'n wynebu'r Cyngor a bod yn ymwybodol o sut y mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli.
- sicrhau bod unrhyw risgiau cysylltiedig wedi cael eu hystyried wrth graffu penderfyniadau.
- tynnu sylw at risgiau na chawsant eu hadnabod yn barod.

### Sut mae gwneud hyn?

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, cynrychioli llais y dinesydd.
- Codi materion a phryderon gyda rheolwyr perthnasol.
- Ymgysylltu ac archwilio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi ffyrdd o wneud gwelliannau.

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau Cabinet

### Fel Aelod Cabinet rydw i'n disgwyl:

- derbyn gwybodaeth gywir ac amserol am risgiau i lywio penderfyniadau a chanfod beth sydd angen ei wella.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- fonitro darpariaeth cynlluniau gwasanaeth a rheolaeth cofrestrau risg gwasanaeth gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd.
- monitro a bwrw ymlaen gyda chyflwyno ein blaenoriaethau corfforaethol.
- monitro a rheoli risgiau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

### Ydw i wedi:

- cyfarfod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn fy mhortffolio i roi mewnbwn a chytuno ar gynnwys y Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg?
- adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor a'r gwasanaethau rydw i'n eu cynrychioli yn rheolaidd?
- adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau Craffu

### Fel Aelod Craffu rydw i'n disgwyl:

- derbyn gwybodaeth gywir ac amserol am risgiau i lywio penderfyniadau a chanfod beth sydd angen ei wella.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- graffu ar gyflawni cynlluniau gwasanaeth a rheoli cofrestrau risgiau prosiect a gwasanaeth.
- craffu ar gyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor.
- craffu ar reoli ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol.

### Ydw i wedi:

- adolygu Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth yn rheolaidd?
- mynychu cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaeth?

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### Fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rydw i'n disgwyl:

- sicrwydd bod ein prosesau rheoli risg yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y Cyngor.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- adolygu a chymeradwyo'r Polisi a'r Canllawiau ar Reoli Risg (yn cynnwys parodrwydd i dderbyn risg).
- monitro bod ein prosesau rheoli risg yn cael eu defnyddio'n briodol.
- nodi risgiau sy'n ymwneud â llywodraethu ac archwilio sy'n cyfiawnhau craffu pellach.

### Ydw i wedi:

- adolygu gwybodaeth risg y Cyngor yn rheolaidd? Mae hyn yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, ond fe allai hefyd gynnwys cofrestrau risgiau gwasanaeth, rhaglen neu brosiect pan fo angen.
- rhoi mewnbwn i ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor.
- nodi unrhyw risgiau pellach sy'n cyfiawnhau craffu pellach (naill ai gan y Pwyllgor neu Graffu) i sicrhau bod prosesau risg y Cyngor yn gweithio fel y dylent ar bob lefel. Bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn risg sy'n ymwneud â llywodraethu.

# Canllaw i Reoli Risg

## Aelodau Staff

### Fel aelod o staff rydw i'n disgwyl:

- deall beth yw blaenoriaethau'r Cyngor a'r cyfraniad y mae fy ngwaith yn ei wneud tuag atynt.
- bod adnoddau a systemau yn eu lle i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, cyfathrebu a monitor ein gwybodaeth am risg, gan fy helpu i ddeall sut y mae'r Cyngor a'i wasanaethau'n rheoli risg.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- gefnogi cyflawni'r Cynllun Gwasanaeth.
- gwella gwasanaethau.
- lliniaru unrhyw risgiau posib, lle bo'n briodol.

### Sut mae gwneud hyn?

- Gofyn cwestiynau, cyfrannu syniadau a herio'r ffordd rydym ni'n gwneud pethau.
- Codi unrhyw risgiau neu bryderon gyda rheolwyr.
- Bod yn rhan o'r broses cynllunio gwasanaeth a rhoi eich mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth.
- Aros ar y blaen gyda phrosesau rheoli risg y Cyngor.
- Darparu diweddariadau gonest a hawdd eu deall, ar gynnydd fy ngwaith ac unrhyw broblemau yr wyf yn eu cael.

# Canllaw i Reoli Risg

## Y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Corfforaethol

### Fel y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol rydw i'n disgwyl:

- i staff fod yn rhan o'n proses rheoli risg a deall beth yw eu cyfraniad.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- sicrhau bod y prosesau rheoli risg yn aros yn addas i'r diben ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- hyrwyddo diwylliant o reoli risg o fewn y Cyngor.
- monitro'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- adolygu risgiau gwasanaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn cyfarfodydd 1 i 1 rheolaidd.

### Ydw i wedi:

- rhoi mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth a'r Cofrestrau Risg?
- adolygu'r data ar risg gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd?
- cymryd rhan yn y rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?
- rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

# Canllaw i Reoli Risg

## Penaethiaid Gwasanaeth

### Fel Pennaeth Gwasanaeth rydw i'n disgwyl:

- derbyn arweiniad ar reoli risg gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol. Aelodau Cabinet a'r Tîm Perfformiad a Chynllunio Strategol.
- i aelodau Craffu a staff hefyd gyfrannu at ddatblygu a darparu'r gwasanaeth, gan gynnwys rheoli risg.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- fonitro'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- datblygu, cyfathrebu a darparu'r Cynllun Gwasanaeth, a'r risgiau iddo, gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig yn rheolaidd ar faterion sy'n berthnasol iddynt.
- rheoli risgiau i'r gwasanaeth, gyda mewnbwn gan staff, a sicrhau bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio lle bo angen.
- sicrhau bod y prosesau rheoli risg yn dal i fod yn addas i'r diben ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, hyrwyddo diwylliant o reolaeth risg o fewn y Cyngor.

### Ydw i wedi:

- ymgynghori ac ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys rheolwyr, staff ac Aelodau Cabinet Arweiniol?
- ystyried anghenion y cwsmer a rhoi sylw i ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- ystyried goblygiadau cynlluniau a risgiau posib?
- adolygu'r data ar risg yn rheolaidd gydag Aelod(au) Cabinet a'r tîm rheoli ac adnabod cyfleoedd i wella?
- cymryd rhan yn y rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?

- cyfathrebu negeseuon allweddol i staff (da a drwg)?
- rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

# Canllaw i Reoli Risg

## Rheolwyr Canol

### Fel Rheolwr Canol rydw i'n disgwyl:

- derbyn cyfarwyddyd clir gan y Cyngor ac uwch arweinwyr.
- i staff fod yn cyfrannu at ddarparu'r Cynllun Gwasanaeth, yn ymwybodol o'r gofrestr risg ar gyfer y gwasanaeth ac yn deall eu cyfraniad at ddarparu'r gwasanaeth yn llwyddiannus.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- helpu'r Penaethiaid Gwasanaeth i gyfathrebu gweledigaeth strategol y Cyngor a chynnwys staff mewn datblygu a darparu'r Cynllun Gwasanaeth a'r risgiau iddo, gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig ar faterion sy'n berthnasol iddynt.
- sicrhau fod staff yn ymgysylltu ac yn ymrwymo â gweithgarwch o fewn y Cynllun Gwasanaeth.
- cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i fonitro Cofrestr Risg y Gwasanaeth, a gweithio ag aelodau o'r tîm.
- adnabod unrhyw risg bosib i ddarparu'r gwasanaeth a thrafod â'r Pennaeth Gwasanaeth.

### Ydw i wedi:

- ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol yn ystod datblygu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg?
- rhoi sylw i unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd?
- gwerthuso goblygiadau'r cynllun a'r risgiau posib?
- gosod disgwyliadau realistig ar gyfer prosiectau / gweithgareddau?
- adolygu'r data ar risg yn rheolaidd er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth?
- cyfathrebu negeseuon allweddol i staff, da a drwg?

- rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

## Swyddogion Perfformiad o fewn Gwasanaeth

### Fel Swyddog Perfformiad Arweiniol rydw i'n disgwyl:

- bod gennyf ddealltwriaeth glir o brosesau rheoli risg y Cyngor.
- bod y Cynlluniau Gwasanaeth a'r Cofrestrau Risg yn derbyn mewnbwn a herio parhaus gan fudd-ddeiliaid gan gynnwys y Cyfarwyddw(y)r Corfforaethol, Aelod(au) Cabinet Arweiniol, staff a'r cyhoedd.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- gefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i gwblhau a chyfathrebu Cynllun Gwasanaeth (erbyn 31 Mawrth), a Chofrestr Risg Gwasanaeth, clir a hawdd eu dilyn gan sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu cynnwys a bod staff yn deall eu hymrwymiadau.
- diweddaru'r Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg yn barhaus, mae'r rhain yn ddogfennau byw a dylid eu diweddaru'n dilyn unrhyw weithgaredd / datblygiad newydd yn ystod y flwyddyn.
- sicrhau bod y wybodaeth gywir a hawdd ei deall ddiweddaraf am risg yn cael ei chofnodi yn y system Verto o fewn un mis i ddiwedd y chwarter. Dylai unrhyw sylwadau a roddir fod yn ddiamwys a heb gynnwys acronymau.

### Ydw i wedi:

- ymgynghori gyda, a chynnwys y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad perthnasol i sicrhau bod y dull yn gyson ac nad yw'n gwrthdaro â gwaith a wneir mewn mannau eraill?
- sicrhau fod ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- dadansoddi goblygiadau'r cynllun gwasanaeth a'r risgiau posib?

- defnyddio'r system Verto i helpu i goladu manylion y Cynllun Gwasanaeth a chynnal Cofrestr Risg y Gwasanaeth?

## Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad

### Fel Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad rydw i'n disgwyl:

- i gofrestrau risg gwasanaeth i gael eu cynnal a'u diweddaru.
- i ddiweddariadau cywir a chwarterol gael eu cyflwyno o fewn un mis i ddiwedd chwarter, gyda sylwadau clir a dealladwy lle bo hynny'n briodol.
- i faterion gael eu herio gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig gan y Cabinet, Craffu Perfformiad a'r cyhoedd.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- gynnal cywirdeb y broses o gasglu data, monitro ac adrodd o fewn y Cyngor.
- cefnogi gwasanaethau i gynllunio a rheoli risg i'w gwasanaeth, gan sicrhau dull cyson, a rhoi sylw dyledus i ystyriaethau pwysig fel y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ymrwymiadau partneriaeth ac ymrwymiadau eraill gan y Cyngor.
- cynhyrchu gwybodaeth ac adroddiadau cywir fel sy'n ofynnol gan Uwch Arweinwyr, y Cyngor, y Cabinet, Craffu, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### Ydw i wedi:

- monitro diweddariadau risg yn rheolaidd gan wasanaethau?
- cefnogi gwasanaethau i fonitro risg yn barhaus fel bo angen?
- cymryd rhan yn y rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- cynnal cyswllt â gwasanaethau ac uwch reolwyr i sicrhau y caiff risgiau eu cofnodi a'u huwchgyfeirio'n briodol fel bo angen?

# Canllaw i Reoli Risg

## Atodiad 1: Ein Hymagwedd tuag at Barodrwydd i Dderbyn Risg

Mae datganiad Cyngor Sir Ddinbych ar barodrwydd i dderbyn risg, a adolygwyd ym mis Ebrill 2024, yn nodi ymagwedd Cyngor Sir Ddinbych tuag at gymryd risgiau drwy ddiffinio ei drothwyon parodrwydd i dderbyn risg. Mae’n ddatganiad a fydd yn cael ei adolygu a’i newid yn flynyddol fel bod unrhyw newidiadau i strategaethau neu amcanion y sefydliad neu newidiadau o ran ei allu i reoli risg yn cael eu hadlewyrchu’n gywir. Bydd y wybodaeth yn cael ei lledaenu ledled y Cyngor er mwyn hyrwyddo rheolaeth risg rymus a sicrhau y caiff risgiau eu hadnabod a’u rheoli’n gywir ac yn effeithiol.

Diffinnir hyn fel lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Ein nod yw ystyried yr holl opsiynau er mwyn ymateb yn briodol i risg a gwneud penderfyniadau gwybodus a fydd yn arwain at ddarpariaeth gwasanaeth llwyddiannus ar yr un pryd a darparu lefel dderbyniol o werth am arian.

Mae derbyn risg yn amodol ar sicrhau y deallir yn llwyr bob mantais a risg posibl a bod camau priodol i liniaru’r risg wedi eu sefydlu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Rydym yn cydnabod y bydd y parodrwydd i dderbyn risg yn amrywio yn ôl y gweithgaredd dan sylw ac y bydd felly wahanol lefelau o barodrwydd a goddefgarwch.

Nid yw parodrwydd i dderbyn risg yn disodli’r broses uwchgyfeirio a nodir yn y polisi rheoli risg. Mae risgiau’n dal i gael eu rheoli ar y lefel isaf a mwyaf priodol o fewn y sefydliad ac ni fyddant yn cael eu huwchgyfeirio heblaw pan fo angen cymryd camau sydd y tu all i reolaeth y perchennog risg presennol.

Dosbarthir parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ar draws ei weithgareddau yn erbyn y raddfa ganlynol sy’n deillio o Lyfr Oren Llywodraeth y DU ar Reoli Risg.

### Dosbarthiad a Disgrifiad:

- **Gwrth risg** yw osgoi risg ac ansicrwydd. Felly nid ydym yn barod i oddef unrhyw risg o fewn y dosbarthiad parodrwydd hwn.
- **Minimalaidd** yw’r ffafriaeth am opsiynau hynod ddiogel sydd â rhywfaint o risg gynhenid ac sydd â'r potensial am wobrau cyfyngedig yn unig. Yn y dosbarthiad hwn, rydym yn barod i dderbyn risgiau **bach** yn unig.

# Canllaw i Reoli Risg

- **Gofalus** yw'r ffafriaeth am opsiynau diogel sydd â graddfa ganolig o risg gynhenid ac a allai fod â rhywfaint o botensial am wobrau. O ran ein graddfa amlygiad i risg, byddem felly yn derbyn risgiau **bach** neu **gymedrol**.
- **Agored** yw'r parodrwydd i ystyried yr holl opsiynau dosbarthu a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). O fewn hyn, byddwn yn derbyn risgiau **bach**, risgiau **cymedrol** a risgiau **mawr**.
- **Awyddus** yw'r awydd i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes a allai fod yn uwch er gwaethaf mwy o risg gynhenid. Derbynnir pob risg yn y dosbarthiad hwn - **bach**, **cymedrol**, **mawr** a **chritigol**.

## Datganiad Cyngor Sir Ddinbych ar Barodrwydd i Dderbyn Risg

- **Enw Da a Hygrededd (risgiau yn gysylltiedig â ffydd / hyder pobl yn y Cyngor)** – Ystyrir ei bod yn hollbwysig bod y Cyngor yn diogelu ei enw da. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn barod i dderbyn risg **agored** wrth ymgymryd ag unrhyw un o'i weithgareddau a allai beryglu ei enw da ond dim ond os yw'n hyderus y bydd y canlyniad tebygol yn llwyddiannus.
- **Darpariaeth Weithredol a Darpariaeth Polisïau (risgiau sy'n canolbwyntio ar nodau hirdymor a'r gwasanaethau y mae ein cwsmeriaid yn eu derbyn)** – Mae'r amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo'n newid yn gyson drwy ei weithrediadau mewnol, y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'r amgylchedd allanol. Mae'r Cyngor yn anelu at fod yn awdurdod lleol arweiniol yng Ngogledd Cymru ac i fod yn arloesol ac yn flaengar. Felly, mae'r Cyngor yn barod i dderbyn risgiau **agored**.
- **Ariannol (risgiau am golled ariannol a gwerth am arian) –** Mae'r Cyngor yn anelu i gynnal ei hyfywedd ariannol hirdymor a'i wytnwch ariannol cyffredinol wrth anelu I wireddu ei amcanion strategol ac ariannol. Er y manylir ar yr ymagwedd tuag at risg mewn sawl dogfen allweddol, megis y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwyir yn flynyddol, mae'r pwyntiau allweddol canlynol yn bwysig:

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod cyllideb refeniw gyffredinol gytbwys erbyn dechrau mis Mawrth bob blwyddyn ac mae'n rhaid i'r Penaethiaid Gwasanaeth wedyn gadw gwariant net o fewn cyfansymiau cymeradwy'r gwasanaeth. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn ceisio rhoi cyllideb gytbwys gerbron y Cabinet a'r Cyngor i'w chymeradwyo ym mis Ionawr, a gosod Treth y Cyngor ym mis Chwefror, ymhell cyn y terfyn amser statudol.
- Yn unol â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn, bydd isafswm balans cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol o £5 miliwn yn cael ei gadw.
- Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn nodi mewn manylder ymagwedd y Cyngor tuag at risg yn gysylltiedig â benthyg a buddsoddi, sydd wedi'i grynhoi isod:
    a. Mae Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac arweiniad Llywodraeth Cymru yn gofyn bod yr Awdurdod yn buddsoddi ei arian yn ddarbodus, ac i dalu sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o enillion. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw ceisio cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion o fethdaliadau a'r risg o dderbyn incwm annerbyniol o isel o fuddsoddiad.
    b. Mae'r Cyngor yn monitro ei sefyllfa ariannol a'i lefelau cyfraddau llog yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod unrhyw fenthyca hirdymor ychwanegol yn cael ei wneud gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar yr amser gorau i sicrhau bod ymrwymiadau cyfalaf cyfredol wedi'u hariannu'n llawn.

Mae'r Cyngor felly'n barod i **Dderbyn Risg Gofalus** mewn perthynas â rheolaeth y trysorlys. Yn hanesyddol, roedd y Cyngor yn fodlon bod yn fwy agored i dderbyn risg ar gyfer prosiectau, gan adlewyrchu'r risgiau a'r gwobrau sy'n gynhenid i lawer o'r prosiectau mawr. Fodd bynnag, mewn ymateb i gyllid cyhoeddus sy'n gwaethygu, ym mis Ebrill 2024, bu i'r Cyngor ddiwygio ei ddatganiad ar gyfer prosiectau i **Barodrwydd i Dderbyn Risg Gofalus.**

# Canllaw i Reoli Risg

**Cydymffurfiaeth a Rheoliadau (risgiau yn ymwneud â'r gyfraith, rheoliadau a chanllawiau statudol):** Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu lles unigolion a bydd ond yn derbyn **risg finimalaidd** yn y maes hwn. O ran meysydd eraill sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, rheoliadau a gwarchod y cyhoedd, mae'r Cyngor yn barod i dderbyn **risg gofalus** mewn achosion o dorri statudau, rheoliadau, safonau proffesiynol, moeseg, llwgrwobrwyaeth neu dwyll.

**Pobl (Gweithlu):** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei weithwyr yn hollbwysig o ran cyflawniad ei amcanion a bod cefnogi a datblygu staff yn allweddol o ran gwneud y Cyngor yn fan gwaith sy'n ysbrydoli gan arwain at berfformiad da. Mae'n rhoi pwysigrwydd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, urddas a pharch ac ar les a diogelwch staff. Yn ddiweddar, i gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio staff, rydym yn gwneud rhai prosesau recriwtio'n fwy hyblyg – mewn modd diogel – i liniaru anawsterau wrth lenwi rolau. Felly, mae gan y Cyngor **Barodrwydd i Dderbyn Risg Gofalus** o ran safonau mewn telerau ac amodau a dysgu a datblygu, lle gellid, yn enwedig o ran dysgu a datblygu, ystyried ymdriniaethau ag ychydig mwy o risg ynghlwm â nhw.

## Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg

Yn defnyddio'r dosbarthiad parodrwydd i dderbyn risg sydd wedi ei amlinellu yn gynharach yn y ddogfen, mae'r canlyniadau o risg ac esiamplau ymddygiad wrth gymryd penderfyniadau fel a ganlyn:

- Enw da a hygrededd:
  - **Gwrth risg** - methu goddef cymryd risgiau os oes unrhyw siawns y byddant yn arwain at sgil-effeithiau negyddol i'r Cyngor (yn lleol neu'n ehangach).
  - **Minimalaidd** – parodrwydd i dderbyn risg yn gyfyngedig i'r digwyddiadau hynny lle byddai sgil-effeithiau sylweddol i'r Cyngor yn hynod o annhebygol.
  - **Gofalus** - ystyried gweithgareddau a allent arwain at fân graffu a sgil-effeithiau o ran enw da ond dim ond lle gellir cymryd camau i leihau'r posibilrwydd o fod yn agored i lefel dderbyniol.

- **Agored** – yn teimlo'n gyfforddus i gymryd risgiau a allent beryglu'r Cyngor, ond dim pan fo camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli perthnasoedd cymunedol a sylw yn y cyfryngau.
- **Awyddus** - yn awyddus i wneud penderfyniadau sy'n debygol o arwain at graffu sylweddol neu genedlaethol ar y Cyngor, gyda sgil-effaith ar enw da lle ystyrir y byddai'r manteision yn sylweddol.

- Darpariaeth weithredol a darpariaeth polisi:
  - **Gwrth risg** - anelu i gynnal neu ddiogelu yn hytrach na chreu ac arloesi. Rheolaethau rheoli a goruchwylio yn flaenoriaeth. Osgoi systemau / datblygiadau technolegol yn gyffredinol.
  - **Minimalaidd** – osgoi systemau / datblygiadau newydd oni bai bod hynny'n hanfodol. Yr awdurdod i wneud penderfyniadau gan uwch reolwyr yn unig. Dim ond datblygiadau hanfodol i systemau / technoleg yn cael ei hystyried.
  - **Gofalus** – tueddiad i gadw at y drefn sydd ohoni, osgoi pethau newydd yn gyffredinol, oni bai bod arloesi'n angenrheidiol. Yr awdurdod i wneud penderfyniadau gan uwch reolwyr yn unig yn gyffredinol. Datblygiadau i systemau / technolegol yn gyfyngedig i welliannu i ddiogelu'r gweithrediadau cyfredol.
  - **Agored** - cefnogi arloesi, lle rhagwelir gwelliannau mesuradwy. Systemau / datblygiadau technolegol yn cael eu hystyried. Cyfrifoldeb dros benderfyniadau nad ydynt yn gritigol yn cael eu datganoli.
  - **Awyddus** - Arloesi'n cael ei groesawu. Dymuniad i newid pethau a herio ffyrdd arferol o weithio. Technolegau newydd yn cael eu hystyried yn alluogwr darpariaeth gwasanaeth hollbwysig. Lefelau uchel o awdurdod datganoledig – rheoli drwy ymddiriedaeth yn hytrach na rheolaeth dynn.

- Ariannol / Gwerth am Arian:
  - **Gwrth risg** - osgoi colledion ariannol yn amcan allweddol. Dim ond yn barod i dderbyn yr opsiwn cost isaf / mwyaf diogel. Adnoddau yn cael eu tynnu o weithgareddau nad ydynt yn hanfodol.

- **Minimalaidd** – dim ond yn barod i dderbyn y posibilrwydd o golledion ariannol cyfyngedig iawn os nad oes unrhyw fodd o gwbl i osgoi hynny. Gwerth am arian yw'r pryder mwyaf.
- **Gofalus** - yn barod i dderbyn y posibilrwydd o golledion ariannol cyfyngedig. Gwerth am arian yw'r pryder mwyaf o hyd ond hefyd yn barod i ystyried y manteision ehangach.
- **Agored** - yn barod i fuddsoddi lle byddai mantais fawr a lle gellid rheoli'r perygl o golled ariannol i lefel y gellir ei goddef. Gwerth a manteision wedi eu hystyried (nid dim ond y pris rhataf). Clustnodi adnoddau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd posibl.
- **Awyddus** - yn barod i fuddsoddi er mwyn cael y fantais fwyaf a derbyn y posibilrwydd o golled ariannol (er y gallai mesurau rheoli fod yn eu lle). Adnoddau wedi'u dyrannu heb sicrwydd y ceir unrhyw beth yn ôl.

- Cydymffurfiaeth – cyfreithiol / rheolaethol:
  - **Gwrth risg** - 'chwarae'n ddiogel' heb wyro oddi wrth y gofynion cyfreithiol na rheolaethol. Osgoi unrhyw beth y gellid ei herio.
  - **Minimalaidd** – ystyried dim ond gweithgareddau a fydd yn gwyro dim ond ychydig iawn oddi wrth y disgwyliadau o ran cydymffurfiaeth.
  - **Gofalus** - dim ond yn barod mentro pan fo perygl o gael eu herio yn isel iawn.
  - **Agored** - rhywfaint o barodrwydd i wyro lle disgwylir her, ond dim ond os ydym yn debygol o fod ar ein hennill a'r enillion yn gorbwyso unrhyw ganlyniadau niweidiol.
  - **Awyddus** - y siawns o golli yn uchel a'r canlyniadau'n ddifrifol ond ennill yn cael ei weld fel buddugoliaeth fawr.

- Pobl (Gweithlu):
  - **Gwrth risg** - dim ymdriniaethau trawsnewidiol yn cael eu hystyried. Cadw'r drefn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Rheolaeth a goruchwyliaeth dynn gan reolwyr yn cael ei ffafrio.
  - **Minimalaidd** - yn barod i ystyried ymdriniaethau sydd wedi eu profi nad ydynt yn bygwth morâl staff neu delerau ac amodau.

# Canllaw i Reoli Risg

- **Gofalus** - yn pwyso a mesur manteision posibl ymdriniaethau newydd / heb eu profi ond dim ond os yw'r risg yn isel ac y gellir ei rheoli.
- **Agored -** yn debygol o ddewis opsiwn sy'n arwain at newidiadau i forâl staff neu delerau ac amodau lle bo hynny'n arwain at werth am arwain.
- **Awyddus** - yn arloesol o ran cymryd risgiau mewn perthynas â'r gweithlu a fydd yn cynnig manteision i staff a'r sefydliad. Disgwyliad bod y staff yn llawn cymhelliad ac yn gallu cynnal eu hunain. Disgwyliad bod y staff yn llawn cymhelliad ac yn gallu cynnal eu hunain.

# Canllaw i Reoli Risg

## Geirfa

### Cynlluniau

- **Cynllun Corfforaethol.** Y Cynllun Corfforaethol yw cynllun strategol cynhwysfawr y Cyngor, ac mae'n ymateb i Gynllun Lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer tymor y Cyngor. Mae hwn yn uwch na'r Cynlluniau Gwasanaeth.

- **Cynllun Gwasanaeth.** Y Cynllun Gwasanaeth yw sylfaen Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor (gweler y Canllaw i Wella Gwasanaethau ar gyfer ein Cymunedau). Mae'n cynnwys pob dangosydd / mesur perfformiad a gweithgarwch gwella sy'n ymwneud â'r canlyniadau allweddol y mae gwasanaethau yn eu hystyried yn bwysig. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth yn bwydo i Gynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, a chânt eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet Arweiniol perthnasol. Mae gan rai gwasanaethau gynlluniau gweithredol hefyd o dan eu cynlluniau gwasanaeth, ond ni chaiff y rhain eu monitro'n gydweithredol.

- **Cynllunio Gwasanaeth.** Mae Cynllunio Gwasanaeth yn weithgarwch sydd fel arfer yn digwydd rhwng Ionawr a Mawrth er mwyn cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r Swyddogion Perfformiad a Chynllunio Strategol yn gweithio gyda'r Swyddogion Perfformiad Arweiniol a'r Penaethiaid Gwasanaeth i'w datblygu yn Verto erbyn 31 Mawrth, er eu bod yn ddogfennau byw sydd angen eu diweddaru drwy'r flwyddyn. Mae templed y Cynlluniau Gwasanaeth yn Verto, ac mae wedi ei seilio ar y dull Canlyniadau'n Cyfrif. Am fwy o ganllawiau ynglŷn â sut i greu cynllun gwasanaeth, siaradwch gyda'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

- **Hunanasesiad Blynyddol.** Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd arnom i gyhoeddi adroddiad yn nodi canlyniadau ein Hunanasesiad

unwaith bob blwyddyn ariannol. Dyma'r dadansoddiad cyffredinol o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynlluniau Strategol - y Cynllun Corfforaethol yn bennaf - ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae ein Hunanasesiad Blynyddol hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'n hymagwedd tuag at reoli risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

## Rheoli Risg

- **Rheolaeth.** Proses, polisi, arfer neu weithred arall sy'n gweithio i leihau risg negyddol neu wneud y mwyaf o gyfleoedd cadarnhaol. Gellir hefyd defnyddio 'rheolaeth' mewn proses sydd wedi'i llunio i ddarparu sicrwydd rhesymol ynghylch cyflawni canlyniadau.

- **Cofrestr Risgiau Gorfforaethol.** Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn eiddo i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain. Mae'n cael ei monitor ganddynt a chan y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rheolaidd (o leiaf bob chwe mis). Mae'n cymryd y risgiau mwyaf difrifol a chyffredin o'r gofrestr risg gwasanaeth a phortffolios y Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Fel y Cofrestrau Risg Gwasanaeth, mae'n cael ei storio ar y system Verto.

- **Digwyddiad.** Achlysur o amgylchiadau penodol. Gall ddigwyddiad fod yn sicr neu'n ansicr. Gall ddigwyddiad fod yn ddigwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau.

- **Effaith.** Canlyniad neu effaith digwyddiad. Gall bod mwy nag un effaith o un digwyddiad. Gall effeithiau amrywio o fod yn gadarnhaol i negyddol. Gellir mynegi effeithiau yn ansoddol neu'n fesurol. Mae effeithiau yn cael eu hystyried mewn perthynas â chyflawniadau canlyniadau.

- **Risg Gynhenid.** Y risg cyn ystyried y mesurau rheoli presennol a pha mor effeithiol ydynt.

# Canllaw i Reoli Risg

- **Mater.** Yn cyfeirio at ganlyniadau risg sydd eisoes wedi digwydd, ac mae camau lliniaru gan reolwyr ar waith neu yn cael eu cynllunio. Yn achos prosiect, mater yw pwynt neu fater dan sylw neu lle mae anghydfod yn ei gylch, neu bwynt neu fater sydd heb ei setlo ond sydd wrthi'n cael ei drafod.

- **Tebygolrwydd.** Yn disgrifio i ba raddau y mae digwyddiad yn debygol o ddigwydd. Gellir mynegi tebygolrwydd yn ansoddol neu'n feintiol. Gellir defnyddio tebygolrwydd neu amlder wrth ddisgrifio risg.

- **Risg Weddilliol.**Y risg sydd ar ôl neu'n weddill ar ôl ystyried y mesurau rheoli presennol a pha mor effeithiol ydynt.

- **Risg.** Mae risg yn ddigwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau yn llwyddiannus. Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio amgylchyn ansicr o ddigwyddiad a'i effaith posibl.

- **Parodrwydd i Dderbyn Risg.** Lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth geisio gwireddu ein hamcanion hirdymor.

- **Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg.** Mae'r fframwaith yn disgrifio'r ymddygiadau ar gyfer pob un o'r dosbarthiadau parodrwydd i dderbyn risg. Mae hyn o gymorth i'r Cyngor asesu ei barodrwydd i dderbyn y fath risgiau.

- **Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg.** Mae'r datganiad yn nodi dull y Cyngor o gymryd risg trwy ddiffinio ei drothwyon parodrwydd i dderbyn risg.

- **Asesiad Risg.** Y broses gyffredinol o nodi, dadansoddi, cynllunio gweithredu ac adolygu risg.

- **Cofrestr Risg Gwasanaeth.** Mae'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cynnwys y risgiau o fewn portffolio Pennaeth Gwasanaeth. Fel y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, caiff y rhain eu monitro drwy'r system Verto.